# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 25AIN GORFFENNAF 2018 AM 2.00 P.M.

---

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Gymdogaeth), C. Gordon (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol), B.A. Jones (Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyrhaeddiad), S. Morgan (Aelod Cabinet dros yr Economi, Isadeiledd a Chynaladwyedd), L. Phipps (Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Aelod Cabinet dros Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau Plant), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), S. Couzens (Prif Swyddog Tai), C. Davies (Rheolwr Tai'r Sector Preifat Dros Dro), J. Morgan (Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestryddion), L. Morgan (Rheolwr Trwyddedu) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorwyr S. Morgan, D. V. Poole, Mrs E. Stenner a M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau) ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem Agenda 6 - Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi Cenedlaethol Diwygiedig a newidiadau cysylltiedig i'r Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat, ar ddechrau'r cyfarfod.

Datganodd y Cynghorwyr N. George a B. A. Jones ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem Agenda 9 - Strategaeth Ddrafft Rheoli Asedau Cartrefi Caerffili, ar ddechrau'r cyfarfod.

### 3. COFNODION Y CABINET - 11EG GORFFENNAF 2018

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 11eg Gorffennaf 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**4. RECRIWTIO A CHADW GWEITHWYR CYMDEITHASOL MEWN TIMAU ARDAL GWASANAETHAU PLANT**

Diweddarwyd y Cabinet gan yr adroddiad ynghylch yr heriau sy'n wynebu recriwtio a chadw o fewn y Gwasanaethau Plant a'r cydberthynas uniongyrchol â graddfeydd cyflog cyfredol y Cyngor ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol ac Uwch Ymarferwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i reoli'r cynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith a brofwyd dros y 12 i 18 mis diwethaf yn ddiogel.

Eglurwyd bod Timau Gwasanaethau Plant Rheng Flaen, a elwir yn Dimau Ardal yng Nghaerffili, yn hanesyddol yn feysydd lle gall recriwtio a chadw staff fod yn heriol. Mae chwe Thîm Ardal ar draws y Fwrdeistref ac maent yn darparu cymorth gwaith cymdeithasol uniongyrchol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Atgoffwyd y Cabinet am y pwysau gwasanaeth a wynebir ar draws Gwasanaethau Plant gyda chymhlethdod cynyddol anawsterau sy'n cael eu cyflwyno gan deuluoedd, y cynnydd sylweddol o 100 o Blant sy'n Derbyn Gofal, y gorwariant cyllidebol rhagamcanol canlyniadol a gofynion di-droi'n ôl y cynydd mewn Achosion Llys. Mae'r Gwasanaethau Plant yn dibynnu ar Weithwyr Cymdeithasol ac Uwch-ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol a'u cofrestru er mwyn cyflawni ei swyddogaeth statudol. Mae sicrhau bod gan y Cyngor weithlu o safon uchel yn hanfodol i reoli'r risgiau i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws y Fwrdeistref. Dros y 12-18 mis diwethaf, profwyd anawsterau cynyddol wrth recriwtio a chadw staff cymwysedig yn y chwe Thîm Ardal Rheng flaen ar draws yr Adran.

Nodwyd bod y trafodaethau a wneir gyda staff sy'n gadael ac ymgeiswyr posibl nad ydynt yn derbyn swyddi yn cadarnhau bod y lefel bresennol o dâl yn ffactor hollbwysig. Mae'r Cyngor yn cynnig y cyflog cychwynnol isaf a graddfa gyflog gyfyngedig ar gyfer eu swyddi Gweithwyr Cymdeithasol o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol cyfagos y mae Caerffili mewn cystadleuaeth uniongyrchol ar eu cyfer ar gyfer staff cymwys. Cydnabuwyd mai Caerffili oedd un o'r Cynghorau cyntaf i weithredu Gwerthusiad Swyddi gyda Chasnewydd a Sir Fynwy yn ddau o'r rhai mwyaf diweddar i gwblhau'r dasg. Gall hyn fod yn ffactor yn y gwahaniaeth mewn graddfeydd cyflog ar draws y Cynghorau.

Trafododd y Cabinet y materion recriwtio a chadw ac effaith y baich gwaith ychwanegol ac atgoffwyd Aelodau bod y Cabinet, ym mis Gorffennaf 2017, wedi cymeradwyo recriwtio dau Weithiwr Cymdeithasol tymor penodol ychwanegol i'r Timau Ardal i gefnogi pwysau cynyddol y llysoedd. Yn anffodus, nid yw'r Adran wedi gallu recriwtio i'r swyddi hyn. Cyflwynwyd adroddiad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a gytunodd yn ei dro y dylid sefydlu Tasglu sy'n cynnwys Cyllid, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi opsiynau. Yr opsiynau a ystyriwyd gan y Tasglu oedd ailraddio Gweithwyr Cymdeithasol i Radd 10 ac Uwch Ymarferwyr i Radd 11 o fewn y Graddfeydd Tâl Gwerthuso Swyddi presennol i alinio Caerffili â'r Cynghorau eraill yng Ngwent. Bu'r Grŵp yn ystyried yr opsiwn hwn a daeth i'r casgliad na ddylai'r Cyngor ail-werthuso'r swyddi Gradd 9-12 oherwydd y potensial hawlio cyflog cyfartal ar gyfer pob swydd arall yn y graddau hynny ar draws y Cyngor cyfan. Yr ail ddewis a ffafriwyd oedd cyflwyno atodiad marchnad i gydnabod yr anawsterau recriwtio a'r pwysau ar y baich gwaith yn Nhimau Ardal Gwasanaethau Plant yn unig. Byddai'n rhaid i'r atodiad hwn fod yn £3227 i'w wneud yn gystadleuol â Chasnewydd a Sir Fynwy. Ystyriodd y Grŵp a ddylid gwneud hyn ar draws yr Is-adran a/neu'r Gyfadran a chytunodd fod y rhesymeg dros gymhwyso'r atodiad wedi ei glymu'n glir ag anawsterau recriwtio di-baid a pharhaus dros 18 mis mewn Timau penodol.

Yn ogystal, cynghorwyd y Cabinet bod cefnogi staff anghymwys i ymgymryd â hyfforddiant i fod yn gymwys ac i gofrestru fel Gweithiwr Cymdeithasol yn ffordd brofedig o sicrhau bod modd llenwi swyddi gwag wrth fynd rhagddi. Roedd y secondiadau hyn wedi'u hatal o'r blaen ac erbyn hyn cytunwyd y dylai cyfleoedd secondiad ail-ddechrau yn y Gwasanaethau Plant yn unig, gan ddefnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru sydd ar gael trwy Ddatblygu'r Gweithlu. Bydd staff a secondiwyd angen diwrnodau astudio a bod cyfleoedd lleoli ar gael.

O ran goblygiadau ariannol, cadarnhawyd mai £264,776 fydd cost blwyddyn lawn o weithredu atodiad marchnad o £3,227 i'r swyddi o fewn y chwe Thîm Ardal. Mae hyn yn seiliedig ar 7 Gweithiwr Cymdeithasol a 3 Uwch Ymarferydd ym mhob un o'r chwe thîm ynghyd â'r ddwy swydd ychwanegol y cytunwyd arnynt y llynedd ac mae'n cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Phensiwn y cyflogwr. Byddai cost blwyddyn lawn y 4 Gweithiwr Cymdeithasol ychwanegol (Gradd 9 ac atodiad marchnad) ac 1 Swyddog Adolygu Annibynnol (Gradd 10 heb unrhyw atodiad marchnad) oddeutu £244 mil. Cynigir bod y gost ychwanegol o £338,666 ar gyfer gweddill 2018/19 yn cael ei ariannu trwy'r defnydd unwaith ac am byth o Gronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd angen ymgorffori blynyddoedd ariannol dilynol yn y broses gosod cyllideb ar gyfer 2019/20 yng ngoleuni'r twf a ragwelir i'w ddyrannu i'r Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ddiweddar, cyfarfu'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Lles â phob un o'r Timau Ardal a chyfeiriodd at y pryderon a fynegwyd gan staff ac yn arbennig y lefelau cyflog presennol. Pwysleisiodd fod y Timau yn Wasanaethau Rheng Flaen a bydd yr ychwanegiad marchnad hwn yn talu'r ffordd wrth gefnogi staff presennol trwy sicrhau cysondeb gyda'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd. Mae'r staff o'r farn bod ganddynt rwydwaith cymorth da o'u cwmpas. Cefnogodd y Cabinet y cynigion yn llwyr ac ymestynnodd eu llongyfarchiadau i'r staff ymrwymedig a ffyddlon sydd wedi dangos eu hymrwymiad gyda'r pwysau gwasanaeth cynyddol o fewn y Gyfadran.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:-

(i) i nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) cymeradwyo'r defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau Cymdeithasol yn y swm o £338,666 i ariannu'r cynigion canlynol ar gyfer gweddill 2018/19:

a) recriwtio pedwar Gweithiwr Cymdeithasol ychwanegol (yn ychwanegol at y ddwy swydd heb eu llenwi y cytunwyd arnynt y llynedd) a Swyddog Adolygu Annibynnol i gwrdd â gofynion llwyth gwaith;

b) cymhwyso atodiad marchnad o £3,227 i'r holl swyddi Gweithwyr Cymdeithasol ac Uwch Ymarferwyr yn y chwe Thîm Ardal Gwasanaethau Plant, a fydd yn cael ei adolygu 12 mis ar ôl ei weithredu, gydag adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet bryd hynny.

## 5. CYNNIG I GYNYDDU PRISIAU TEITHIAU CLUDIANT HACNI

Roedd yr Adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cynnydd arfaethedig ym Mhrisiau Teithiau Cludiant Hacni. Dywedwyd wrth y Cabinet fod yr Adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Tacsi a Chyffredinol ar 21ain Mehefin 2018 o ganlyniad i geisiadau a dderbyniwyd gan Gymdeithas Gyrwyr Tacsi Bwrdeistref Sirol Caerffili (CGTBSC) a dau Berchennog Cerbydau Hacni, i gynyddu'r Prisiau Teithiau Cludiant Hacni.

Eglurwyd bod y prisiau presennol wedi bod yn eu lle ers 2010 ac y dylid adolygu hyn yn unol â'r hinsawdd economaidd bresennol. Cyfeiriwyd y Cabinet at y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad a'i atodiadau, gan gynnwys y prisiau cyfredol, sefyllfa'r Cyngor o fewn y Tabl Prisiau Cludiant Cenedlaethol, gymhariaeth o'r prisiau dwy filltir ar draws Cymru, cymhariaeth o bob cynnig fel yr awgrymwyd gan y busnesau tacsi a'r Awdurdod Trwyddedu yn dangos y prisiau arfaethedig yn seiliedig ar deithiau 1 i 5 milltir. Darparwyd manylion am y cynigion a wnaed gan y busnesau tacsi, prisiau newydd drafft yn seiliedig ar y cynnig mwyaf poblogaidd, ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Cyngor hefyd.

Cadarnhawyd bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda phob masnachwr mewn perthynas â'r cynigion a'r ymatebion a lefel y gefnogaeth ganlynol ar gyfer pob cynnig, fel y nodwyd yn Adran 4.6 o'r adroddiad. Roedd Cynnig 1 yn cynnwys yr un awgrymiadau a wnaed gan y gymdeithas tacsis ac un perchennog, tra bod Cynigion 2 a 3 yn cael eu cyflwyno gan drwyddedai arall. Nodwyd bod yr Adran Drwyddedu wedi awgrymu ei chynnig ei hun (Cynnig 4) fel rhan o'r ymarferiad cynyddu'r prisiau, a gefnogwyd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr (46 allan o 97 o ymatebwyr a oedd yn cyfateb i 47.4% o'r ymatebion). Byddai hyn yn gweld cynnydd pris i brisiau cludiant o rhwng 4%-13%, yn dibynnu ar y cyfnod prisiau perthnasol. Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd nodi'r cynnig i ddiwygio'r amrediad ar gyfer amseroedd gweithredu yn ymwneud â Phrisiau 1 a Phrisiau 2 (o 6am i hanner nos a hanner nos i 6am yn y drefn honno, i'w diwygio i 7am i 7pm a 7pm i 7am yn y drefn honno).

Esboniwyd yn dilyn cadarnhad y Cabinet, ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad yn dilyn hysbyseb yn y wasg am gyfnod o 14 diwrnod, y bydd y pris cludiant yn dod i rym ar unwaith. Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau yna bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad pellach i ystyried y rhain ac i gymeradwyo'r prisiau cludiant gydag addasiadau neu beidio, ac ar ba ddyddiad y dylai hyn ddod i rym.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:-

(i) Cymeradwyo Cynnig 4 mewn perthynas â chynnydd i'r prisiau teithiau cludiant cerbyd hacni fel y'i gosodir yn yr adroddiad ac Atodiad F, i alluogi'r cynnig i gael ei hysbysebu yn y wasg am gyfnod o 14 diwrnod;

(ii) nodir y bydd y pris cludiant yn dod i rym ar unwaith ar ôl y cyfnod ymgynghori os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau. Os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau yna bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad pellach i ystyried y rhain ac i gymeradwyo'r prisiau cludiant gydag addasiadau neu beidio, ac ar ba ddyddiad y dylai hyn ddod i rym.

## 6. CYNLLUNIAU BENTHYCIADAU GWELLA CARTREFI CENEDLAETHOL DIWYGIEDIG A NEWIDIADAU CYSYLLTIEDIG I'R POLISI ADNEWYDDU TAI'R SECTOR PREIFAT

Datganodd y Cynghorwyr S. Morgan, D. V. Poole, Mrs E. Stenner a M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau) ddiddordeb personol mewn perthynas â'r eitem hon ar ddechrau'r cyfarfod. Gan fod y diddordebau'n bersonol, nid oedd yn ofynnol i'r Aelodau a'r Cyfarwyddwr adael yr ystafell a gallant gymryd rhan yn y ddadl.

Yn y lle cyntaf, cyfeiriwyd y Cabinet at wall teipograffyddol ym mharagraff 4.7. yn yr adroddiad a ddylai ddarllen *grant cyfalaf Llywodraeth Cymru (LlC)*, na ellir ei ad-dalu, y gellir ei ailgylchu a ddarparwyd ar gyfer y Cynlluniau Troi Tai'n Gartrefi, a'i weithredu'n rhanbarthol.

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cabinet am y newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â'r Cynlluniau canlynol a gofynnodd am gymeradwyaeth i wneud y newidiadau arfaethedig i Bolisi Adnewyddu Tai Sector Preifat yr Awdurdod:

(i) y Cynlluniau Troi Tai'n Gartrefi a Benthyciadau Gwella Cartrefi;

(ii) cyllido Cyllidebau Cyfalaf ar gyfer Benthyciadau Gwella Cartrefi a Chynllun Troi Tai'n Gartrefi;

(iii) Benthyciadau ar gyfer perchen-feddianwyr a landlordiaid, gan gynnwys cynnig i gynnig Benthyciadau am oes i helpu'r perchnogion tai hynny sydd fwyaf mewn angen.

Esboniwyd bod LlC wedi cyflwyno diwygiadau i'r cynlluniau Troi Tai'n Gartrefi a Benthyciadau Gwella Cartrefi yn Chwefror 2018 a fydd yn effeithio ar drefniadau Benthyciadau a gynigir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad yn amlinellu sut y mae'n ofynnol i'r Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Cenedlaethol diwygiedig weithredu. Ar y pryd cyflwynodd LlC hefyd newidiadau i'r trefniadau ariannu cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n cynnig Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi a Gwella Cartrefi. Derbyniwyd y newidiadau hyn, mewn egwyddor, gan yr Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd a Phennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro, er mwyn galluogi'r Cyngor i dderbyn dyfarniad cyllid o fewn yr amserlen benodol.

Nododd y Cabinet fod dwy ffynhonnell ariannu cyfalaf ar wahân yn wreiddiol. I ddechrau, darparwyd grant cyfalaf LlC y gellir ei ailgylchu, na ellir ei ad-dalu, ar gyfer y Cynllun Troi Tai'n Gartrefi, a weithredwyd yn rhanbarthol. Yn ogystal, darparodd LlC ffynhonnell arian cyfalaf ar ffurf Benthyciad ad-daladwy tymor hir di-lôg i Awdurdodau Lleol, i ariannu benthyciadau i berchnogion tai a landlordiaid ac i ddychwelyd eiddo gwag yn ôl i'w defnyddio. Bydd y ddwy ffynhonnell gyllid bellach yn cael eu cyfuno i ffurfio un pot i'r Awdurdod ei ddefnyddio ar gyfer Benthyciadau ad-daladwy yn ôl yr angen a'r galw lleol. Fodd bynnag, rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod digon o arian ar gael i'w ddyrannu i fenthyciadau mewn perthynas ag Eiddo Gwag i sicrhau bod targed sector Cymru gyfan o 5,000 o gartrefi a ddygir yn ôl i ddefnydd yn cael ei gyflawni.

Yn ogystal â gofyn am newidiadau i weinyddu benthyciadau presennol sydd ar gael i berchen-feddianwyr a landlordiaid, fel amod o dderbyn y dyfarniad diwygiedig am gymorth benthyciad, mae LlC yn mynnu bod yr Awdurdod Lleol hefyd yn darparu cymorth ariannol ad-daladwy i berchen-feddianwyr incwm isel, sy'n methu â chyrraedd meini prawf fforddiadwyedd Benthyciadau Gwella Cartrefi ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer grantiau eraill sydd ar gael. Bydd y 'benthyciadau gydol oes' hyn ar gael i gael gwared ar beryglon yn y cartref ac i wneud y cartrefi'n 'saff, cynnes a diogel'. Mae cymorth o'r fath i'w ddarparu yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Lleol ac mae'n ofynnol ei gynnig yn ychwanegol at gynhyrchion cymorth ariannol sydd eisoes yn bodoli. Hysbyswyd y Cabinet y dylai hyn fod ar gael i'r cyhoedd ers 30ain Mehefin 2018 ond mae LlC yn ymwybodol o'r llinell amser i'w hystyried gan yr Aelodau. Gan fod y newidiadau i fenthyciadau presennol a chyflwyno Cymorth Ariannol Ad-daladwy Perchen-feddianwyr yn rhagnodol yn eu fformat, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried p'un a ddylid cytuno i wneud y cynhyrchion ariannol diwygiedig ar gael fel rhan o Bolisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ai peidio.

Trafododd y Cabinet y cynigion gan ystyried hyn fel 'stori newyddion da' a fydd yn darparu tai i fwy o bobl yn y tymor hir. Cadarnhawyd, er mwyn sicrhau y defnydd mwyaf o'r cynhyrchion benthyg, ac i gydymffurfio â chanllawiau LlC, y bydd argaeledd ystod y cynhyrchion benthyg yn cael ei hyrwyddo mewn amrywiol gyhoeddiadau lleol, ar wefan y Cyngor a thrwy gyfryngau cymdeithasol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar welliant i baragraff 10.1. i gynnwys penderfyniad mewn egwyddor *yr Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd mewn perthynas â'r trefniadau diwygiedig ar gyfer y benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi a Gwella Cartrefi fel y manylir ym mharagraff 4* , ac argymhelliad ychwanegol ym mharagraff 10.4. i gynnwys *y newidiadau a gyflwynwyd gan LlC ar gyfer y tri dewis benthyciad amrywiol i'w nodi a'u cadarnhau a bod hyn yn cael ei adlewyrchu trwy ddiwygio Strategaeth Adnewyddu Tai'r Sector Preifat,* ac am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddogion: -

(i) cymeradwyo nodi cynnwys yr adroddiad yn ymwneud â newidiadau a gyflwynwyd gan LlC mewn perthynas â chyllido Cymorth Benthyciad, a bod penderfyniad mewn egwyddor yr Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd mewn perthynas â'r trefniadau diwygiedig ar gyfer y benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi a Gwella Cartrefi fel y'i manylir ym mharagraff 4;

(ii) y dylid cytuno ar gyflwyno cynnyrch Cymorth Ariannol Ad-daladwy i Berchen-feddianwyr i'w weithredu yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 4.16 a 4.17 a bod y paragraffau hyn ynghlwm wrth Bolisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat;

(iii) cytuno ar y newidiadau arfaethedig i'r cynhyrchion Benthyciadau Perchen-feddianwyr a Landlordiaid presennol a amlinellir ym mharagraffau 4.14 a 4.15 a bod y paragraffau hyn ynghlwm wrth Bolisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat;

(iv) dylid nodi'r newidiadau a gyflwynwyd gan LlC ar gyfer y tri opsiwn benthyciad amrywiol a'u cadarnhau a bod hyn yn cael ei adlewyrchu trwy newid y Strategaeth Adnewyddu Tai'r Sector Preifat.

**7. DYRANIAD ARIAN ARFAETHEDIG AR GYFER PRENTISIAETHAU AR DRAWS GWASANAETHAU'R CYNGOR**

Ceisiodd yr Adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dyraniad cyllid ar gyfer Prentisiaethau ar draws y Cyngor ynghyd â phroses ffurfiol ar gyfer ystyried ceisiadau am brentisiaethau o feysydd gwasanaeth ar draws Gwasanaethau'r Cyngor.

Eglurwyd bod cyllideb refeniw o £485 mil wedi'i sefydlu ym mis Ebrill 2011 er mwyn ariannu Prentisiaethau. O ganlyniad i ofynion arbedion parhaus yn deillio o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), gostyngwyd y gyllideb hon i £150 mil yn 2015/16 a'i symud yn gyfan gwbl o 2016/17. Cafodd tanwariant ar y gyllideb refeniw ei neilltuo i gronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio ac, ar 31ain Mawrth 2018, y balans anymrwymedig ar y gronfa wrth gefn yw £530 mil. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i ryddhau'r gronfa wrth gefn ar gyfer rhaglen brentisiaeth newydd er mwyn cefnogi blaenoriaethau cyflogaeth, adfywio, sgiliau a phrentisiaethau Llywodraeth Cymru, y Cyngor (a Phrifddinas-Rhanbarth Caerdydd ehangach (PRhC)) a chynorthwyo gwasanaethau amrywiol ar draws yr Awdurdod gyda materion cynllunio'r gweithlu.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi bod yn archwilio'r proffil oedran ar draws yr Awdurdod yn ddiweddar ac mae tuedd cyffredinol yn y data tuag at staff 50+ oed. Yn y cyd-destun hwn, gall polisïau ailfodelu'r gweithlu a hyblygrwydd y gweithlu gynorthwyo i ostwng y sefydliad lle mae ei angen ond mae angen sicrhau cydbwysedd sy'n caniatáu i dalent gael mynediad i mewn i'r sefydliad hefyd. Mae hyn yn bwysicach mewn rhai gwasanaethau nag eraill oherwydd gwahanol faterion cynllunio'r gweithlu.

Cynigiwyd pe bai maes gwasanaeth yn dymuno recriwtio prentis, rhaid cwblhau achos busnes a'i gyflwyno i'r Panel Prentisiaethau, a fyddai'n cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, Pennaeth y Gwasanaethau Pobl a'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol. Bydd y Panel yn ystyried y ceisiadau ac yn gwneud argymhellion i'r Prif Weithredwr. At hynny, bydd adroddiad cynnydd rheolaidd yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau er gwybodaeth am ymgysylltu â phrentisiaid.

Mae'r swm sydd ar gael ar hyn o bryd yn y gronfa wrth gefn yn £530 mil a gallai hyn naill ai gefnogi 23 o brentisiaethau am gyfnod o flwyddyn neu 11.5 o brentisiaethau am gyfnod o 2 flynedd (sy'n nodweddiadol o gyfnod prentisiaeth). Pwysleisiwyd bod nifer o drynewidiadau eraill yn dibynnu ar gyfnodau prentisiaeth perthnasol, gofynion gwasanaeth penodol a/neu a allai'r maes gwasanaeth wneud unrhyw gyfraniad ariannol tuag at gostau cyflog. Bydd gallu gwasanaeth unigol i gyfrannu arian i'r cynllun prentisiaeth yn rhan annatod o'r achos busnes sydd i'w gwblhau. Byddai disgwyl hefyd y byddai gwasanaethau unigol yn ariannu'r costau

hyfforddi neu'n chwilio am nawdd allanol i gefnogi costau hyfforddiant. Yn ogystal, byddai'n rhaid i'r Cyngor ystyried yn ddifrifol pa gyfleoedd cyflogaeth a allai fod ar gael ar gyfer y Prentisiaid hyn ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi, fel arall ni fyddai'n gweld unrhyw fantais.

Trafododd y Cabinet y manteision y bydd y cynllun prentisiaeth arfaethedig yn eu cynnig i ymgeiswyr gwaith wrth gaffael y sgiliau sy'n berthnasol i gyflogaeth hirdymor benodol. Yn ogystal, bydd y rhagolygon o fewn yr Awdurdod Lleol yn rhoi cyfraniadau penodol i ffyniant, cydraddoldeb, adfywio cymunedol a chymdeithasol byd-eang, o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mynegodd yr Aelodau bwysigrwydd ystyried sgiliau ar gyfer y dyfodol ac nid yn y tymor byr yn unig ac y dylai'r prentisiaethau ddarparu canlyniadau ystyrlon yn y tymor hir.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar welliant ym mharagraff 10.2. i gynnwys *yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol* ac am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) cytuno i ddefnyddio'r swm unwaith ac am byth anymrwymedig o £530 mil sydd wedi'i neilltuo ar hyn o bryd yn y Cronfeydd Wrth Gefn i ariannu prentisiaethau;

(ii) cymeradwyo sefydlu Panel Prentisiaeth sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau, Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Pennaeth Cyllid Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, a fydd yn ystyried ceisiadau Prentisiaeth yn unol â'r broses a amlinellir ym mharagraff 4.9.

(iii) cyflwynir adroddiad pellach i'r Cabinet maes o law a fydd yn nodi rhaglen ddatblygu'r gweithlu arfaethedig gan gynnwys unrhyw fentrau a fydd yn sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

**8. DAD-DROSEDDU PARCIO (CAM 2)**

Atgoffwyd y Cabinet o'r adroddiad blaenorol a ddaeth i law ar 28ain Chwefror 2018, lle mabwysiadodd yr Aelodau fodel gweithredu ar gyfer Gorfodaeth Parcio Sifil (GPS) lle cynhelir gorfodaeth ar y stryd yn fewnol ac i gydweithio ag awdurdodau lleol arall (neu eraill) ar gyfer prosesu a gweinyddu rhybuddion yn y swyddfa gefn. Roedd y penderfyniad hefyd yn cynnwys cyfarwyddyd i ymgymryd â'r adolygiad o'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig sy'n angenrheidiol i baratoi'r cais i Lywodraeth Cymru i sicrhau'r pwerau GPS. Ymgymerwyd â nifer o adroddiadau Arbenigol ers y tro hwn, a bydd canlyniadau'r rhain yn cael eu cyfuno a'u llunio mewn adroddiad pellach a fydd hefyd yn ystyried materion rhyngwyneb o fewn y ddau i bedwar mis nesaf. Bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth hefyd yn cael ei gytuno gydag Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Tâf. Mae swyddogion wedi drafftio eu cais i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i gael pwerau ar gyfer Parcio Sifil.

Y dyddiad 'Mynd yn fyw' a gynlluniwyd ar hyn o bryd ar gyfer GPS yw Ebrill 2019 ac mae Swyddogion ar darged i gyflawni hyn. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynigion a'r argymhellion y dylid eu cymryd i weithredu'r penderfyniad a'r materion y mae angen eu hystyried ymhellach a fydd yn cynorthwyo i gyflawni'r dyddiad gweithredu hwn. Amlinellodd y swyddogion y camau gweithredu a gynlluniwyd a'r cynnydd a wnaed o ran paratoadau GPS, a nodwyd bod y cynigion a'r materion wedi cael eu cyflwyno i Seminar Aelodau ar 6ed Mehefin 2018, lle'r oedd tua hanner yr Aelodau'n bresennol i ystyried y cynigion. Ystyriwyd yr adroddiad hefyd gan Bwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd yn ei gyfarfod ar 26ain Mehefin 2018. Codwyd dau bwynt allweddol yn y Seminar, yn benodol y pryderon am 'gydbwysedd gorfodaeth' a rhoddodd Swyddogion sicrwydd y byddai digon o adnoddau ar gael. Yr ail bwynt oedd tynnu Heddlu Gwent yn ôl o'r gwasanaeth hwn cyn y dyddiad gweithredu. Tawelwyd meddwl y

Cabinet yn ei dro bod Swyddogion wedi siarad gyda'r Heddlu ac wedi derbyn sicrwydd bod yr Heddlu yn barod i fod yn hyblyg ac y byddant yn cynnig trawsnewid esmwyth ar gyfer y cyfnod Ionawr i Ebrill 2019. Cefnogodd y Pwyllgor Craffu'r argymhellion fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar welliant i baragraff 1.11. (x) i gynnwys *ac fel eilydd, Aelod Cabinet dros Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd* ac argymhelliad ychwanegol ym mharagraff 1.11. (xi) i gynnwys *y penderfyniadau a'r dirprwyo awdurdod ffurfiol fel y'u nodir yn Adran 5 yr adroddiad sy'n ofynnol er mwyn symud ymlaen â'r camau gweithredu angenrheidiol er mwyn gweithredu, gan gynnwys cais am bwerau GPS i Lywodraeth Cymru* ac yn amodol ar ddiwygiad i baragraff 1.12 *i'w gynnwys. Adroddiad wedyn i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn* ac am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) CBSC yn dod i gytundeb ffurfiol gyda CBSRhCT er mwyn iddynt reoli'r swyddfa gefn ar ran CBSC;

(ii) am gysondeb, trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw dros orfodi holl feysydd parcio Cefn Gwlad a Thwristiaeth i'r Tîm Gorfodaeth Sifil;

(iii) bod yr holl gynlluniau parcio trwyddedau preswyl presennol o fewn y fwrdeistref yn cael eu cyfuno (fel rhan o orchymyn cyfuno GRhT) i'w dwyn yn unol â'r polisi a sicrhau cysondeb ar draws y Fwrdeistref;

(iv) datblygu protocolau a/neu systemau cysylltiadau cwsmeriaid newydd trwy'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid;

(v) caffael unrhyw system parcio heb arian o bell ac ar wahân i ddarparwr gwasanaeth TG Gorfodi Parcio Sifil (GPS);

(vi) bod rôl y Prif Swyddog Gweithredol yn cael ei weithredu i ddechrau o dan GPS i osgoi unrhyw oedi i'w weithredu. Ar yr un pryd, bydd gwaith ar gyfuno'r rôl gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol (SCC) yn cael ei ddatblygu a'i weithredu cyn gynted ag y bo modd, os yw'n ymarferol;

(vii) bod unrhyw weddill ariannol o'r gweithrediad yn cael eu neilltuo i weithgareddau GPS a darpariaethau yn unol â'r gofynion a nodir yn Adran 55 (fel y'i diwygiwyd) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984;

(viii) dylid ceisio'r argymhellion a'r dirprwyo awdurdod fel y'u nodir yn Adran 5.1 o'r adroddiad i hwyluso'r cais GPS i LlC a'i gweithrediad ar ôl hynny;

(ix) ariannir y costau ychwanegol o £431 mil ar gyfer adolygiad y GRhT a chostau sefydlu GPS o gronfeydd wrth gefn Ffordd Fenter Sirhywi (FfFS) a'r Gyfadran Cymunedau (hynny yw, £291 mil o gronfa FfFS a £140 mil o gronfa wrth gefn y Gyfadran Cymunedau);

(x) cymeradwyo ac enwebu i'r Cyngor y dylai'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Economi, Isadeiledd, Cynaladwyedd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn eilydd Aelod Cabinet dros Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd fod yn Gynrychiolwyr a benodir i sefyll ar Gyd-bwyllgor Lloegr a Chymru ar gyfer Gorfodaeth Sifil Parcio a Rholiadau Trafnidiaeth y tu allan i Lundain, sy'n goruchwylio'r gwasanaeth dyfarnu a elwir yn Dribiwnlys Cosbau Traffig (TCT) a bod cynrychiolydd fel eilydd hefyd wedi'i enwebu a'i benodi;

(xi) y dylid cefnogi'r penderfyniadau a'r dirprwyo awdurdod ffurfiol fel y'u nodir yn Adran 5 yr adroddiad sydd eu hangen er mwyn symud ymlaen â'r camau angenrheidiol i weithredu, gan gynnwys cais am bwerau GPS i Lywodraeth Cymru;

(xii) mae angen ystyried ymhellach y rhyngwyneb rhwng Diogelwch Cymunedol, GPS a'r rolau staff canlyniadol, a chyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet maes o law mewn cysylltiad â'r materion hyn ac wedi hynny'r Cyngor llawn.

## 9. STRATEGAETH DDRAFFT RHEOLI ASEDAU CARTREFI CAERFFILI

Datganodd y Cynghorwyr N. George a B. A. Jones ddiddordeb personol mewn perthynas â'r eitem hon ar ddechrau'r cyfarfod. Gan fod y diddordeb yn bersonol, nid oedd yn ofynnol i'r Aelodau adael yr ystafell a gallant gymryd rhan yn y ddadl.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r strategaeth asedau arfaethedig ar gyfer Cartrefi Caerffili yn dilyn cyflawniad disgwyliedig Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2020. Bydd hyn yn sicrhau bod y safon yn cael ei chynnal wedi hynny ac y bydd portffolio Tai'r Cyngor yn parhau i ddarparu cartrefi o ansawdd fforddiadwy sy'n bodloni anghenion cwsmeriaid. Mae'r strategaeth yn berthnasol i'r holl stoc tai sy'n eiddo i'r cyngor a ariennir gan y Cyfrif Refeniw Tai, a thai cyngor newydd. Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i fynd ymlaen â'r ymgynghoriad tenantiaid ehangach ar y cynigion. Yna bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yn y Cabinet a fydd yn cynnwys canlyniad yr ymgynghoriad i'w ystyried/cymeradwyo'n derfynol.

O ran cyflwyno'r strategaeth hon cyfeiriwyd y Cabinet at baragraff 4.6. yn yr adroddiad sy'n nodi'r materion allweddol a nodwyd. Eglurwyd bod cronfa ddata rheoli asedau newydd yn cael ei chaffael o'r enw Keystone mewn perthynas â Rheoli Asedau ac i gynorthwyo gyda chyflwyno'r rhaglen SATC. Mae'r system hon yn helpu i reoli cynnal a gwella'r stoc dai trwy gadw cofnod o'r portffolio. Mae hefyd yn nodi'r buddsoddiad sy'n ofynnol ar gyfer pob eiddo a'r ymrwymiadau ariannol sydd eu hangen i gyflawni'r safon ofynnol, h.y. SATC ac i gefnogi'r gwaith cynnal a chadw parhaus o'r safon ar ôl 2020. Er y gall y gronfa ddata rheoli asedau ddarparu gwybodaeth ar lefel eiddo unigol, mae angen cytuno ar gynllun cyflawni i sicrhau y darperir unrhyw raglenni cynnal a chadw a gynllunir yn y dyfodol mor economaidd ac effeithlon â phosibl. Rhoddwyd eglurhad ynglŷn â chofnodi cwynion a chadarnhawyd na fyddai'r gronfa ddata yn cofnodi'r wybodaeth hon a bod unrhyw gwynion yn cael eu cofnodi a'u prosesu ar hyn o bryd drwy'r Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol.

Mae angen ystyried darpariaeth tai Cyngor newydd hefyd a'i gynnwys yn y cynllun cyflawni. Nododd y Cabinet bod angen adolygu'r strategaeth gaffael bresennol i sicrhau bod yr ymagwedd a gymerir nid yn unig yn cefnogi'r cynllun cyflawni mor effeithiol ac effeithlon â phosib, ond hefyd yn sicrhau gwerth am arian ac yn sicrhau bod y gymuned yn manteisio i'r eithaf o'r buddsoddiad. O ran safonau/ansawdd pwysleisiwyd bod dealltwriaeth y Cyngor o'r portffolio asedau a'r anghenion cwsmeriaid yn allweddol i gyflawni'r strategaeth hon yn llwyddiannus. Mae cynnal yr eiddo presennol i SATC yn un agwedd, ond bydd safonau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill i gydymffurfio â hwy. Yn ogystal, bydd angen arloesi a chynaladwyedd i sicrhau bod tai presennol a newydd yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Bydd Siarter Ymddiried y tenantiaid yn parhau i dderbyn cefnogaeth i sicrhau bod lefelau gwasanaeth boddhaol yn cael eu darparu i bob tenant. Dywedwyd wrth y Cabinet y bydd angen i gynllun busnes hyfyw ariannol ategu'r strategaeth gytunedig sy'n nodi'n glir y gofynion incwm/benthyca i fodloni'r buddsoddiad a nodwyd yn y cynllun cyflawni.

Darparwyd trosolwg o'r Rhaglen Cynnal a Chadw Asedau sy'n cynnwys ailfodelu Cynlluniau Tai Lloches, Tai Hygyrch a Thai Newydd y Cyngor. Cadarnhawyd y bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn dilyn arolygon, a chynhaliwyd proses Ymgynghori.

Gofynnodd y Cabinet, wrth ystyried ailfodelu'r Cynlluniau Tai Lloches, y dylai Swyddogion gael trafodaethau manwl gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â gofynion. Rhoddwyd pwyslais ar anghenion tenantiaid i'w hystyried yn ystod y pump i ddeng mlynedd nesaf ac nid ar gyfer y dyfodol agos yn unig.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD yn amodol ar welliant ym mharagraff 16.1. (c) i ddarllen 13.2. ac nid 12.2. ac am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, cytuno ar yr egwyddorion canlynol: -
>
> (i) sefydlu Strategaeth Rheoli Asedau 5 mlynedd fel y nodir yn yr adroddiad;
>
> (ii) cytuno mewn egwyddor i'r cynllun cyflawni arfaethedig fel y nodir ym mharagraff 6 yn yr adroddiad;
>
> (iii) cytuno ar y rhagdybiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes sy'n amlinellu'r ffiniau fforddiadwyedd ac wedi'u nodi yn Atodiad 1 a pharagraff 13.2, wrth nodi y gallai'r rhain fod yn destun newid a allai arwain at gyflwyno adroddiadau pellach;
>
> (iv) adroddiadau manwl ar wahân i'w cyflwyno mewn perthynas ag ailfodelu'r Cynlluniau Tai Lloches a thai newydd y Cyngor;
>
> (v) rhaid cyflwyno adroddiad pellach yn dilyn ymgynghoriad tenantiaid ehangach.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.55 pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhelir ar 12fed Medi 2018.

____________________

CADEIRYDD